Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir Wrth Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu.

Yn ystod cyfnod o 28 niwrnod o 2 Mai 2012 gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru, sef qA1011493/1.

O fewn y cyfnod uchod o 28 niwrnod, caiff unrhyw berson, drwy hysbysu Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1011493/1), wrthwynebu gwneud y Gorchymyn.

Noder os gweler yn dda: Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi ni i ddelio â'r materion yr ydych chi wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fo Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau).

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Atodlen 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn.

Rhan siâp 'L' o droetffordd ar Stryt y Rhaglaw islaw'r hanner-landin gantilifrog i risiau Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, a honno'n rhan y mae ei man hiraf yn 4 metr a'i man lletaf yn 3.5 metr.

Atodlen 2

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig.

Gwelliannau i fynedfa Eglwys Fethodistaidd Wrecsam drwy drosorchuddio darn o'r grisiau a'r tŵr mynediad sy'n bodoli eisoes ac amgáu rhan sydd o dan hanner-landin y grisiau yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Rhan III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 10 Ionawr 2012 o dan gyfeirnod WRO P/2012/0028.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Town and Country Planning Act 1990

The Stopping Up of Highways (Land at Wrexham Methodist Church, Regent Street, Wrexham) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under Section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 to this Notice.

If the Order is made, the stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 2 to this Notice to be carried out. The Order will cease to have effect if the planning permission expires or is revoked.

During 28 days from 2 May 2012 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected during normal opening hours at Wrexham Library, Rhosddu Road, Wrexham or may be obtained free of charge from the address below quoting the Welsh Government reference qA1011493/1.

Within the above mentioned period of 28 days, any person may, by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (quoting reference qA1011493/1), object to the making of the Order.

Please note: Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others the information you have given us and your personal data will be passed to the applicant/developer and on occasion the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a stopping up Order becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library where it is publicly available.

A copy of the draft Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Draft Legislation/Draft Non-Statutory Instruments/Town and Country Planning Act Stopping Up Orders).

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

(All measurements are approximate)

Schedule 1

Description of the area of highway to be stopped up under the Order.

An 'L' shaped area of footway on Regent Street below the cantilevered half landing to the staircase of Wrexham Methodist Church, with a maximum length of 4 metres and a maximum width of 3.5 metres.

Schedule 2

Description of the proposed development.

Improvements to the entrance to Wrexham Methodist Church by over-cladding a section of existing staircase/entrance tower and enclosing an area under the half landing of the staircase in accordance with planning permission granted under Part III of the Town and Country Planning Act 1990 by Wrexham County Borough Council on 10 January 2012 under reference number WRO P/2012/0028.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE